## PWYLLGOR CYNLLUNIO

Cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Cynllunio a gynhaliwyd ar y 24ain Gorffennaf, 2002, am 10 a.m. yn Siambr y Cyngor, Ty Russell, Y Rhyl

### YN BRESENNOL

Cynghorwyr F.D. Jones (Cadeirydd), J. Butterfield, M.Ll. Davies, Sophia Drew, A.E. Fletcher-Williams, I.M. German, M.A. German, K.N. Hawkins, D.M. Holder, R.W. Hughes, N. Hugh-Jones, E.R. Jones, F.D. Jones, G.Jones, P.M. Jones, R.E. Jones, R.J.R. Jones, S. Kerfoot-Davies, F. Shaw, D.A. Thomas, S. Thomas, K.E. Wells, C.H. Williams ac R.Ll. Williams.

### HEFYD YN BRESENNOL

Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio, Rheolwr Gwasanaethau Cyfreithiol, Pen Swyddog Cynllunio (De), Pen Swyddog Cynllunio (Gogledd) a Swyddog Gweinyddol (G. Butler).

### CYFLWYNWYD YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB ODDI WRTH

Cynghorwyr N. Hughes, A. Owens a J. Smith

### CYNGHORYDD PETER DOUGLAS

Gyda gofid y cyfeiriodd y Cadeirydd at farwolaeth ddiweddar Aelod y Pwyllgor Peter Douglas. Roedd cyfraniad y Cynghorydd Douglas at y Pwyllgor Cynllunio bob amser yn deg a chytbwys a byddai colled ar ei ôl.

Mewn teyrnged i'r Cynghorydd Douglas, safodd y Pwyllgor yn dawel am funud.

### CYNGHORYDD FRANK SHAW

Croesawyd y Cynghorydd Shaw yn ôl yn dilyn ei anhwylder diweddar.

### GWERTH GORAU

Cylchredwyd y crynodeb o'r Adroddiad Gwerth Gorau er gwybodaeth i'r Aelodau. Dyfarnwyd dosbarthiad 2 seren "da" gyda rhagolygon gobeithiol ar gyfer gwella i'r Gwasanaethau Cynllunio.

Bydd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yn sicrhau fod gan bob Ystafell Grwp gopi llawn o'r Adroddiad.

### 290. EITEMAU BRYS

Dim

### 291. CYNLLUN DATBLYGU UNEDOL

**(i) Statws a Defnydd i Reoli Datblygu**
**(ii) Disodli pob cynllun arall**

(Adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio er gwybodaeth i'r Aelodau)

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yr eitem hon a chyfeiriodd at dri chywiriad i'r Adroddiad;

Tudalen 1 Cefndir :

- Mabwysiadwyd y Cynllun yn ffurfiol ar 3ydd Gorffennaf 2002 (nid 4ydd Gorffennaf fel y dywedwyd)
- Mae'r cyfnod herio chwe wythnos yn diweddu ar 21ain Awst 2002 (nid 14eg Awst)
- Ni fydd y cynllun mabwysiedig yn cael ei gyhoeddi tan 21ain Awst 2002.

Mae'r Cynllun Datblygu Unedol mabwysiedig yn disodli'r holl Gynlluniau eraill (Cynllun Fframwaith Sir Clwyd a Chynlluniau Lleol Bwrdeistref Rhuddlan, Dosbarth Glyndwr a Bwrdeistref Colwyn).

Bydd y fersiwn printiedig ar gael ym mis Medi 2002.

Sir Ddinbych yw'r Awdurdod cyntaf yng Nghymru i fabwysiadu eu CDU.

Cynigiodd y Cynghorydd Selwyn Thomas, Cadeirydd Panel y CDU ei longyfarchion i'r staff ar y gamp yma. Cydnabuwyd y cyfraniad a wnaed gan y diweddar Gynghorydd Peter Douglas ac roedd yn destun gofid nad oedd o yma i weld y mabwysiadu.

Llongyfarchodd y Cynghorydd M. German Banel y CDU ar ganlyniad eu gwaith caled.

Mewn ymateb i gwestiynau, eglurodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio fod y CDU wedi ennill statws ym mhob cam a'i fod wedi derbyn pwysau ychwanegol wrth benderfynu ceisiadau cynllunio. Byddai pob cais a benderfynir o'r 3ydd Gorffennaf 2002 (yn cynnwys pob un ar Bwyllgor heddiw) yn cael eu hystyried yn ôl polisïau'r Cynllun Datblygu Unedol newydd.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad er gwybodaeth.*

**292. <u>CEISIADAU AM GANIATÂD I DDATBLYGU</u>**

Cyflwynwyd yr adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn rhestru'r cynlluniau a gyflwynwyd ac a oedd angen eu penderfynu gan y Pwyllgor.

***PENDERFYNWYD*** *:-*

*(a) cadarnhau argymhellion y Swyddogion, fel y'u cynhwysir yn yr adroddiad a gyflwynir yn awr, a rhoi caniatâd cynllunio neu'i wrthod yn ôl fel y digwydd, fel y bo'n briodol dan y Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, Deddf Cynllunio ac Iawndal, 1991, Rheoliadau Hysbysebion Cynllunio Gwlad a Thref, 1994 a/neu Ddeddf Cynllunio (Adeiladau Rhestredig ac Ardaloedd Cadwraeth), 1990 i'r datblygiad a arfaethir gan y cynlluniau canlynol yn amodol ar yr amodau a nodir yn yr atodlen a gyflwynir yn awr:-*

(i) Caniatâd

| <u>Rhif y Cais.</u> | <u>Disgrifiad a Lleoliad</u> |
|---|---|
| 30/2002/0054/Cymeradwyo Materion a Gadwyd yn Ôl | (Ar ôl ystyried cynllun lleoliad diwygiedig a gylchredwyd a chywiriad i'r adroddiad - mae'r pwll 350m o'r safle nid 1½km. Llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau a dderbyniwyd oddi wrth Mrs J. Ryding, Ty Nant, 6 Parc Bach a Phennaeth Gwarchod y Cyhoedd).<br>Dymchwel ty annedd a manylion 12 o anheddau a mynedfa a gyflwynwyd yn unol ag Amod Rhif 1 caniatâd cynllunio Amlinellol Cyfeirnod 30/2000/0918/PO yn The Haven, Trefnant, Dinbych.<br>YN AMODOL ar amodau diwygiedig 5 ac 11 a nodyn newydd i'r Ymgeisydd<br>5. Dwy annedd olaf y datblygiad ayb ....<br>11. Er gwaethaf darpariaethau'r Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygiad Cyffredinol a Ganiateir) 1995, nid oes dim datblygu, yn cynnwys datblygiad a ganiateir, sy'n golygu ayb ....<br>Nodyn i'r Ymgeisydd – Fe'ch atgoffir o'r angen i gyflwyno cynllun tirlunio dan delerau'r caniatâd cynllunio amlinellol i'w gymeradwyo gan yr awdurdod cynllunio lleol.<br>Tynnir eich sylw at ddeddfwriaeth sy'n ei gwneud hi'n drosedd lladd neu aflonyddu ar Rywogaeth Warchodedig Ewropeaidd yn fwriadol, neu i ddifrodi neu ddinistrio safle magu neu orffwysfan anifail o'r fath. Mae yna byllau magu hysbys o fewn 500 metr i'r safle datblygu ac felly fe ddylech ddal sylw ar yr angen i beidio â chyflawni tramgwydd wrth weithredu'r gymeradwyaeth yma. |

Mae Cyngor Cymuned Trefnant wedi ysgrifennu atom yn gofyn fod y datblygiad i'w adnabod fel Pwll y Clai. Gofynnir ichi gymryd y cais hwn i ystyriaeth wrth gyflwyno eich cynigion i enwi strydoedd ar gyfer y datblygiad.
Wrth ystyried y cais mynegodd yr Aelodau mai defnyddio llechen naturiol sydd orau ganddynt ar doi'r datblygiad. A allech ystyried y cais hwn pan fyddwch yn cyflwyno defnyddiau i gydymffurfio ag amod rhif 1 os gwelwch yn dda.
(Dymunai'r Cynghorwyr Sophia Drew a Neville Hugh-Jones iddo gael ei nodi eu bod wedi pleidleisio'n erbyn rhoi Caniatâd Cynllunio)

43/2002/0089/Cynllunio Llawn

(Ar ôl ystyried llythyrau ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd).
Newid defnydd o orsaf betrol, golchfa ceir a gwerthiannau ceir yn olchfa a lle glanhau ceir a gwerthiannau ceir (yn rhannol ôl-weithredol) yn Beach Service Station, Victoria Road, Prestatyn.
YN AMODOL ar amodau diwygiedig 1, 2, 3, 6 a 7 ac amodau newydd 8 & 9.
1. "20 car"
2. O fewn tri mis i ddyddiad y caniatâd hwn mae ffensys newydd i'w codi ar derfynau gorllewinol, gogleddol a dwyreiniol safle'r cais, yn cynnwys sgrîn chwistrelliad 2.4 metr o uchder ar ochr orllewinol y safle, yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo.
3. Mae'r trefniadau mynediad a chylchrediad mewnol i fod fel y'u dangosir ar y Lluniad a gymeradwywyd Rhif R.730/2 i'w cadw bob amser.
RHESWM - Er mwyn diogelwch y briffordd
6. Nid yw'r gweithgaredd golchi ceir i weithredu cyn 800 o'r gloch neu ar ôl 1800 o'r gloch ar ddydd Llun i ddydd Sadwrn ac ar unrhyw adeg ar ddydd Sul.
7. O fewn tri mis i ddyddiad y caniatâd hwn mae seiffon olew i'w osod i ddelio â draeniad yr holl ddwr wyneb o'r lleoedd parcio a'r lloriau caled, yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, ac mae'r seiffon i'w gadw ac i'w ddefnyddio bob amser wedi hynny.
8. O fewn tri mis i ddyddiad y caniatâd hwn mae modd cadarnhaol o atal goferiad dwr oddi ar y safle i'r briffordd i'w ddarparu yn unol â manylion sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo ac mae darpariaeth o'r fath i'w chadw wedi hynny.
RHESWM - Er mwyn diogelwch y briffordd ac i atal difrod i'r briffordd.
9. Mae glanhau ceir i ddigwydd o fewn yr adeilad yn unig fel y dangosir ar Luniad Rhif R.730/2 a gymeradwywyd.
RHESWM - Er mwyn amwynder deiliaid tai cyfagos.

43/2002/0111/Adran73A (Parhau/Cadw)

(Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth David Gibbon (ar ran Mr MacLeod).
Cadw ac ailraddio defnydd wedi'i arllwys (cais ôl-weithredol) ar Dir yn gyfagos i Quarry Cottage, Tan yr Allt, Prestatyn.
YN AMODOL ar amod diwygiedig 6 a nodyn newydd i'r Ymgeisydd.
6. "Gweddillion"
Nodyn i'r Ymgeisydd – Dygwyd at sylw'r Awdurdod Cynllunio Lleol fod Mr MacLeod yn hawlio budd perchenogaeth yn safle'r cais. Gellir cysylltu â Mr MacLeod trwy David Gibbon,

| | |
|---|---|
| | Church House Studios, Hudnall Lane, Little Gaddesden, Herts HP4 1QE. |
| 43/2002/0417/Cynllunio Llawn | (Cyhoeddodd y Cynghorydd Sophia Drew ddiddordeb yn y cais hwn).<br>Codi estyniad to serth unllawr yng nghefn y ty annedd gan ddarparu lle byw ar y llawr isaf a lle byw yn y to a'r dormer yn y blaenlun yn 2 Clayton Drive, Prestatyn<br>YN AMODOL ar amod newydd 4<br>4. Cyn dechrau'r datblygiad a ganiateir drwy hyn mae manylion triniaeth y terfyn ar y terfyn gogledd-ddwyreiniol i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo, ac mae triniaeth o'r fath i gynnwys cadw'r coed a'r llwyni presennol. Mae triniaeth y terfyn i'w darparu yn unol â'r manylion a gymeradwywyd cyn i neb fyw yn yr estyniad a ganiateir drwy hyn a'i chadw wedi hynny. |
| 43/2002/0426/Cynllunio Llawn | Codi estyniad to serth unllawr yng nghefn y ty annedd yn 6 West Close Prestatyn. |
| 43/2002/0542/Caniatâd Hysbyseb | Cadw arwydd siâp V wedi'i osod ar bolyn a oleuir yn allanol (cais ôl-weithredol) yn 35 The Avenue, Prestatyn.<br>YN AMODOL ar ddileu amod 1. |
| 44/2002/0516/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Mr a Mrs Taylor, 22 Kerfoot Avenue, Rhuddlan).<br>Codi estyniad at y portsh agored presennol wrth ochr y ty annedd yn 24 Kerfoot Avenue, Rhuddlan, Y Rhyl. |
| 45/2002/0029/Cynllunio Llawn | Codi 12 o Anheddau ac adeiladu mynedfa newydd i gerbydau ar Dir yn gyfagos i Avondale, 22 Avondale Drive, Y Rhyl<br>AR YR AMOD bod yr ymgeiswyr yn llunio Cytundeb Adran 106 i sicrhau symiau cymudiadol digonol ar gyfer darparu lle agored<br>ac amod newydd 9<br>9. Mae'r holl goed a gwrychoedd sydd i'w cadw fel rhan o'r datblygiad a ganiateir drwy hyn i'w diogelu tra'n clirio'r safle ac yn ystod gwaith adeiladu gan ffens 1 metr o uchder a godir 1 metr y tu allan i derfynau eithaf lled y canghennau, neu yn unol â chynllun arall a gytunir yn ysgrifenedig gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol; nid oes dim defnyddiau adeiladu neu daclau o unrhyw fath i'w llosgi neu'u rhoi ar y ddaear sy'n gorwedd rhwng bonyn coeden neu wrych a ffens o'r fath, ac o fewn y mannau hyn nid yw lefel bresennol y ddaear i'w chodi na'i gostwng, neu unrhyw ffosydd neu rediad peipiau i'w cloddio, heb ganiatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol ymlaen llaw. |
| 45/2002/0441/Cynllunio Llawn | Newid defnydd ciosg siop dosbarth A1 yn giosg lle prydau parod poeth Dosbarth A3 yn 53 West Parade, Y Rhyl.<br>YN AMODOL ar amod newydd 4.<br>4. Mae'r lle prydau parod poeth Dosbarth A3 a ganiateir drwy hyn ond i'w weithredu o fewn y ciosg fel y dangosir ar y cynllun llawr a gymeradwywyd fel rhan o'r caniatâd hwn.<br>RHESWM – rheoli graddfa'r defnydd er lles amwynder preswyl a gweithredu'r polisi CDU. |
| 45/2002/0529/Cynllunio Llawn | Codi estyniad to serth llawr cyntaf dros yr elfen to gwastad bresennol i ddarparu lle byw ar gyfer y perchennog yn 2 Seabank Road, Y Rhyl. |

| | |
|---|---|
| | YN AMODOL ar amod diwygiedig 5 a nodyn diwygiedig i'r Ymgeisydd.<br>5. Mae'r estyniad llawr cyntaf a ganiateir drwy hyn i'w ddefnyddio bob amser fel lle byw gan bobl a gyflogir yn y feithrinfa ddydd ac nid yw ar unrhyw adeg i'w ddefnyddio fel annedd ar wahân i'r feithrinfa ddydd neu fel rhan o ddefnydd y feithrinfa ddydd (D1).<br>Nodyn diwygiedig i'r Ymgeisydd - Noder 2 reswm rhif 4 (ni fyddai ehangu pellach ar y defnydd meithrinfa ddydd yn dderbyniol ar y safle yma o fewn ardal breswyl gyfagos).<br>(Dymunai'r Cynghorydd Sophia Drew iddo gael ei nodi ei bod hi wedi pleidleisio'n erbyn rhoi Caniatâd Cynllunio). |
| 46/2001/0520/Adran 73A (Parhau/Cadw) | Parhau i ddefnyddio rhan o Gae OS Rhif 5000 a 6300 fel melin lifio/gwaith coed, cadw lle stacio dan do, ailorchuddio adeilad presennol y gweithdy, ffurfio mynedfa a lôn newydd i gerbydau, darparu lleoedd parcio a throi a thirlunio cysylltiedig (yn rhannol ôl-weithredol) yn Rhan o Gae Rhif OS 5000 a 6300 yn Pen-y-Bryn, Ffordd Glascoed, Llanelwy.<br>YN AMODOL ar ddileu amod 1 ac amodau diwygiedig 2, 5 a 6.<br>2. Dileu "y" ar ôl "tymhorau".<br>5. O fewn tri mis i ddyddiad y caniatâd hwn mae'r fynedfa well a ddangosir ar Luniad Rhif MC05 i'w chwblhau yn unol â manylion gweddlun, dyluniad, arwyddion, marciau ffyrdd, cyrbau ac adeiladwaith sydd i'w cyflwyno i'r Awdurdod Cynllunio Lleol a'u cymeradwyo'n ysgrifenedig ganddo ac i gynnwys darn wyneb caled o leiaf ddeg metr yn ôl o'r lôn gerbydau gyfagos.<br>Dileu amod 6 ac ailrifo'r amodau sy'n dilyn |
| 01/2002/0586/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Babtie a Mrs G Kensler (perchennog) Addasu siop a fflat yn dri fflat preswyl yn 42 Stryd y Dyffryn, Dinbych |
| 03/2002/0490/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Llangollen a P. Moren, 11 Bishop's Walk, Llangollen).<br>Gwaith gwella allanol, yn cynnwys darparu ffenestri a drysau newydd, codi to serth dros yr estyniad, codi deciau teras a chreu mynedfa newydd i gerddwyr at ganllaw'r bont yn The Royal Hotel, Bridge Street, Llangollen.<br>YN AMODOL ar amod diwygiedig 2.<br>2. Ni chaniateir i ddim gwaith ddechrau ar y deciau a'r rheiliau arfaethedig hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r defnydd(iau) a'u lliw terfynol. |
| 08/2002/0163/Cynllunio Llawn | Newid defnydd tir amaethyddol i ffurfio estyniad i'r cwrtil domestig presennol, newidiadau i'r fynedfa bresennol i gerbydau a ffurfio dreif yn Hafod Wen, Cynwyd, Corwen. |
| 17/2002/0238/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Archeolegydd y Sir a Phennaeth Priffyrdd).<br>Disgrifiad Diwygiedig : Datblygu tir drwy godi byngalo ar Lain 3 Erw Las, Llandegla, Wrecsam. |
| 21/2002/0463/Cynllunio Llawn | (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth A. Raba, 16 Rectory Lane, Llanferres).<br>Newidiadau ac estyniad i'r annedd bresennol yn 14 Rectory Lane, Llanferres, Yr Wyddgrug. |

23/2002/0484/Cynllunio Llawn Codi estyniad unllawr i'r annedd yn Tyddyn Uchaf, Llanrhaeadr, Dinbych.
(Dymunai'r Cynghorydd Sophia Drew iddo gael ei nodi ei bod hi wedi atal ei phleidlais).

(ii) Caniatâd Adeilad Rhestredig - yn amodol ar ei gyfeirio at CADW

03/2002/0491/LB (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyngor Tref Llangollen a P. Moren, 11 Bishop's Walk, Llangollen).
Gwaith gwella allanol, yn cynnwys darparu ffenestri a drysau newydd, codi to serth dros yr estyniad, codi deciau teras a chreu mynedfa newydd i gerddwyr at ganllaw'r bont yn The Royal Hotel, Bridge Street, Llangollen.
YN AMODOL ar amod diwygiedig 2.
2. Ni chaniateir i unrhyw waith ddechrau ar y deciau a'r rheiliau arfaethedig hyd nes y byddir wedi cael cymeradwyaeth ysgrifenedig yr Awdurdod Cynllunio Lleol i'r defnydd(iau) a'u lliw terfynol.

(iii) Gwrthod

15/2001/0673/Amlinellol (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth yr Asiant – yn gofyn am ohiriad i ganiatáu ailgloriannu gan ADAS – mae'r ymgeisydd wedi cael mwy o dir a da byw yn awr).
Codi ffermdy yn Mountain Hall Farm, School Lane, Llanarmon-yn-Iâl, Yr Wyddgrug
Am y Rheswm diwygiedig canlynol
RHESWM - dileu "yng Nghynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych" ac ychwanegu "hefyd yn groes i bolisi ENV2 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych yn ymwneud â datblygu yn yr AHE."
Hysbysodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio yr Aelodau nad oedd ADAS yn ystyried y daliad yn hyfyw ar hyn o bryd. Dylai tir a da byw ychwanegol fod yn rhan sefydlog o ddaliad cyn yr asesir hyfywedd eto. Gallai'r ymgeisydd ail-wneud cais am ganiatâd cynllunio o fewn 12 mis heb orfod talu ffi ychwanegol.
Dymunai'r Cynghorwyr Sophia Drew a Neville Hugh-Jones iddo gael ei nodi eu bod wedi atal eu pleidlais).

15/2002/0150/Cynllunio Llawn (Ar ôl ystyried un llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Brynle Williams, Cefn Melyn Farm, Cilcain).
Defnyddio tir ac adeiladau fel canolfan weithgareddau HGV (ar gyfer 2 wagen a 2 drelar) (Yn ôl-weithredol) ar dir yn gyfagos i Tyn y Mynydd, Abbeyland, Llanarmon yn Iâl, Yr Wyddgrug.

19/2002/0272/Amlinellol (Ar ôl ystyried pedwar llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: Undeb Amaethwyr Cymru; Tudor Jones, Ffynnon Tudur, Llanelidan; B. Lloyd, Rhewl Wen, Llanelidan; a Glenys E. Jones).
Datblygu tir drwy godi ty annedd, adeiladu mynedfa newydd i gerbydau a gosod tanc carthion (cais amlinellol) ar Dir y tu ôl i Bryn Dedwydd, Rhyd-y-Meudwy, Rhuthun.
Am y rhesymau diwygiedig canlynol 1. a 2.
1. Barn yr Awdurdod Cynllunio Lleol yw na fyddai codi annedd ar y safle yn golygu datblygiad mewnlenwi gan nad yw'n ffurfio bwlch bychan rhwng adeiladau o fewn ffryntiad

sydd wedi'i ddatblygu'n ddi-dor, a gan nad yw'r safle yn rhan o dwr adnabyddadwy o dai, byddai ei ddatblygiad yn groes yn arbennig i Bolisi HSG 5 y Cynllun Datblygu Unedol (Meini prawf (i) a (ii) a Pholisi GEN 5, gan ei fod yn golygu datblygiad ar ei ben ei hun yng nghefn gwlad, gan effeithio'n andwyol ar gymeriad a golwg cefn gwlad.
2. Yn niffyg angen Amaethyddol neu angen Coedwigaeth hanfodol am annedd newydd, byddai'r cynnig yn groes i bolisi HSG 6 Cynllun Datblygu Unedol Sir Ddinbych yn ymwneud ag anheddau newydd mewn gwlad agored.
(Dymunai'r Cynghorwyr M.Ll. Davies, S. Drew, N. Hugh-Jones, G. Jones a C. Williams iddo gael ei nodi eu bod wedi pleidleisio o blaid rhoi Caniatâd Cynllunio).

21/2002/0664/Cynllunio Llawn (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Gyfarwyddiaeth Cludiant Cynulliad Cymru a Babtie).
Datblygu 0.2hectar o dir drwy godi byngalo (cais amlinellol) ar Dir yn gyfagos i Loggerheads Garage, Ffordd Rhuthun, Loggerheads, Llanferres, Yr Wyddgrug.

22/2002/0573/Cynllunio Llawn (Ar ôl ystyried tri llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: Cyngor Cymuned Llangynhafal (i gefnogi); Cynghorydd P. Dobbs (yn gofyn am ohiriad) ac asiant yr ymgeisydd (hefyd yn gofyn am ohiriad).
Codi estyniad i'r annedd bresennol (hen ysgubor) - Byngalo yn Plas yn Rhos Farm, Llanychan, Rhuthun.
(Dymunai'r Cynghorydd Sophia Drew iddo gael ei nodi ei bod hi wedi pleidleisio o blaid rhoi Caniatâd Cynllunio).

(iv) Ymweliadau Safle

47/2002/0514/Cynllunio Llawn (Ar ôl ystyried saith llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth: Asiant yr Ymgeisydd; Y Grwp Sioraidd; CADW Gerddi Hanesyddol; Ymddiriedolaeth Gerddi Cymru; Cymdeithas Hanes Gerddi; Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych; a Chymdeithas Hanes Sir y Fflint)
Codi orendy newydd ac adeilad cyswllt wrth ochr, a newidiadau i'r teras, grisiau a'r llwybrau yn Bryn Bella, Tremeirchion, Llanelwy.
(Ymweliad Safle i ystyried effaith yr orendy a'r cyswllt arfaethedig ar gymeriad a golwg yr Adeilad Rhestredig Gradd 2* ac ar ei gyrion tirlun)

47/2002/0515/Caniatâd Adeilad Rhestredig (Ar ôl ystyried saith llythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth asiant yr Ymgeisydd; Y Grwp Sioraidd; CADW Gerddi Hanesyddol; Ymddiriedolaeth Gerddi Cymru; Cymdeithas Hanes Gerddi; Cymdeithas Hanes Sir Ddinbych; a Chymdeithas Hanes Sir y Fflint)
Codi orendy newydd ac adeilad cyswllt wrth ochr, a newidiadau i'r teras, grisiau a'r llwybrau yn Bryn Bella, Tremeirchion, Llanelwy.
(Ymweliad Safle i asesu effaith y cynnig ar yr Adeilad Rhestredig a'r ardd)

17/2002/0511/Cynllunio Llawn (Ar ôl ystyried dau lythyr ychwanegol yn cyflwyno sylwadau oddi wrth Bennaeth Priffyrdd ac Archeolegydd y Sir).
Datblygu tir drwy godi dwy annedd ac adeiladu mynedfa gysylltiedig i gerbydau ar Lain 3 Erw Las, Llandegla, Wrecsam.

| | |
|---|---|
| | (Ymweliad Safle i asesu a yw'r safle'n ddigon mawr i gymryd dwy annedd) |

(v) Gohirio

| | |
|---|---|
| 40/2002/0382/Cynllunio Llawn | Addasu 2 o dai allan yn 8 Annedd a gosod gwaith trin carthion newydd. Codi bloc garejis dwbl ar ei ben ei hun yn Pen y Ffrith, Terfyn, Bodelwyddan, Y Rhyl.<br>Gohirio i ganiatáu manylion lleoedd pasio, cyfanrwydd saernïol a gwella'r dyluniad.<br>(Dymunai'r Cynghorydd Neville Hugh-Jones iddo gael ei nodi ei fod wedi pleidleisio'n erbyn y Gohiriad). |

**293. MATER GORFODI**

| Rhif y Cais | Disgrifiad a Lleoliad |
|---|---|
| ENF/287/00/S | Tyn y Mynydd, Abbeylands, Llanarmon yn Iâl, Ger Yr Wyddgrug<br>(Defnyddio tir ac adeiladau fel canolfan weithgareddau HGV ar gyfer 2 wagen a 2 drelar)<br>***PENDERFYNWYD:-***<br>*(i) Cyflwyno Rhybudd Gorfodi i sicrhau bod y defnydd diawdurdod yn peidio ac yn dychwelyd i'w ddefnydd awdurdodedig blaenorol.*<br>*(ii) Cychwyn achos erlyn neu gamau priodol eraill dan y Deddfau Cynllunio yn erbyn y sawl neu'r rhai y cyflwynir unrhyw Rybudd Gorfodi, neu Rybudd arall o'r fath iddynt, neu y cymerir camau cyfreithiol yn eu herbyn petaent yn methu â chydymffurfio â'u gofynion.* |

**294. DYDDIAD YMWELIAD SAFLE**

Cyflwynwyd adroddiad ysgrifenedig Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) yn gofyn am gymeradwyaeth i ymweliadau safle sy'n codi o Eitem Rhif 2 ar yr Agenda gael eu cynnal ar ddydd Iau 1af Awst 2002 ac yn rhoi gwybod am aelodaeth bresennol y Panel Ymweld â Safleoedd.

***PENDERFYNWYD*** *cynnal yr ymweliadau safle a gymeradwywyd ar 1af Awst 2002*

**295. YMGYNGHORI GAN GYNGOR BWRDEISTREF SIROL WRECSAM**

Adeiladu Tri Thyrbin Gwynt, Cefn Coed, Glyn Ceiriog.
(Cynllun lleoliad ychwanegol wedi'i gylchredeg).

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio adroddiad yn rhoi gwybod am y tyrbinau gwynt arfaethedig a fyddai i'w gweld, yn rhannol, o Sir Ddinbych. Cydnabuwyd na fyddai'r effaith ar Sir Ddinbych yn un fawr.

***PENDERFYNWYD*** *nad yw Cyngor Sir Ddinbych fel awdurdod cynllunio cyfagos yn cynnig* ***dim gwrthwynebiad*** *i'r cynnig hwn gan na fyddai'r tyrbinau gwynt arfaethedig yn effeithio'n andwyol ar ddefnydd tir, amwynderau neu fuddiannau trigolion Sir Ddinbych, ar yr amod nad oes dim effaith andwyol ar y derbyniad teledu a fwynheir gan drigolion Sir Ddinbych*

**296.** **CANLLAWIAU CYNLLUNIO ATODOL (SPG) 25 : CARAFANAU STATIG & CHALETS: DRAFFT YMGYNGHORI**

(Cyhoeddodd y Cynghorydd S Thomas ddiddordeb yn yr eitem hon a gadawodd y Siambr).

Derbyniwyd adroddiad gan Bennaeth Gwasanaethau Cynllunio yn rhoi gwybod bod angen Canllawiau Cynllunio Atodol 25 i gefnogi ac i roi eglurder i Bolisi TSM 9 y CDU a fabwysiadwyd.

Rhoddir adroddiad ar yr eitem hon i'r Cabinet ac yna bydd yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus o chwe wythnos.

***PENDERFYNWYD*** *cymeradwyo yr SPG 25 drafft fel drafft ymgynghori a fydd yn destun cyfnod ymgynghori cyhoeddus o chwe wythnos.*

**297.** **DIWEDDARIAD AR BENDERFYNIADAU APELIADAU**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio adroddiad er gwybodaeth i'r Aelodau yn rhoi gwybod am benderfyniadau apeliadau diweddar.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**298.** **ENWI STRYDOEDD DATBLYGIADAU**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio adroddiad yn hysbysu'r Aelodau o ddatblygiadau newydd ym Mhrestatyn a'r Rhyl a enwyd yn ddiweddar gan y Gwasanaethau Cynllunio.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

**299.** **RHESTR Y CEISIADAU YR YMDRINIWYD Â HWY DAN BWERAU DIRPRWYEDIG**

Cyflwynodd Pennaeth Gwasanaethau Cynllunio ei adroddiad ysgrifenedig (a gylchlythyrwyd yn flaenorol) ynghylch y ceisiadau am Ganiatâd Cynllunio a benderfynwyd ganddo ef dan bwerau dirprwyedig rhwng 8fed Mehefin 2002 a'r 5ed Gorffennaf 2002.

***PENDERFYNWYD*** *derbyn yr adroddiad.*

Daeth y Cyfarfod i ben am 12.25 p.m.

****************